Llywodraeth Cymru

Adolygiad Annibynnol o Ddulliau Cynllunio Morol ar gyfer Cymru

# Adroddiad Cryno

Mawrth 2025



© Visit Wales

# Cynnwys

1. Cyflwyniad a Dulliau 3
2. Dadansoddiad SWOT 4
3. Argymhellion 5
4. Datganiad i Gloi 8

ISBN 978-1-83715-829-4 / WG52385

# 1. Cyflwyniad a Dulliau

## Cyflwyniad

Yn 2022, cynhaliodd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith Senedd Cymru ymchwiliad ‘ciplun’ o bolisïau morol Llywodraeth Cymru a chyhoeddodd adroddiad yn cynnwys 20 o argymhellion yn ymwneud â chynllunio, trwyddedu, tystiolaeth, cadwraeth natur a charbon glas.

Er mwyn ymateb i alwadau gan randdeiliaid am ddarparu mwy o gyfeiriad gofodol trwy gynllunio morol, ar yr un pryd â sicrhau system gynllunio sefydlog i roi sicrwydd i ddatblygwyr, galwodd un o argymhellion y Pwyllgor am adolygiad annibynnol o gynllunio morol.

Cyhoeddodd y Gweinidog Newid Hinsawdd ar y pryd Ddatganiad Ysgrifenedig ym mis Mawrth 2023, yn amlinellu blaenoriaethau ar gyfer datblygu cynllunio morol. Roedd y rhain yn cynnwys datblygu dulliau o ddarparu mwy o eglurder a chyfeiriad gofodol ar gyfer datblygiad trwy Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru, ar yr un pryd â gwarchod a gwella’r amgylchedd morol.

Ym mis Medi 2024, penodwyd Arup i gynnal adolygiad annibynnol o ddulliau cynllunio morol yng Nghymru. Mae’r adroddiad hwn yn crynhoi’r canfyddiadau allweddol a’r argymhellion ac yn amlinellu camau gweithredu cychwynnol posibl.

## Dulliau

Mae’r adolygiad annibynnol hwn wedi ystyried sut gall Cymru ddatblygu’r fframwaith cynllunio morol ymhellach i ddarparu mwy o eglurder a chyfeiriad gofodol ar gyfer datblygiad morol, gan gydbwyso cefnogaeth i ynni adnewyddadwy â gwarchod a gwella’r amgylchedd morol.

Mae hefyd wedi ystyried dulliau cynllunio morol mewn mannau eraill, i lywio ein dealltwriaeth o arfer da a chyfleoedd ar gyfer cynllunio morol yng Nghymru yn y dyfodol.

Canolbwyntiwyd ar y meysydd allweddol canlynol:

- Dulliau a ddefnyddir gan systemau cynllunio eraill ac opsiynau ar gyfer defnyddio dulliau cyffredin gydag ardaloedd cynllun morol cymdogol y Deyrnas Unedig.
- Cyfleoedd ac offer i ddarparu mwy o eglurder a chyfeiriad gofodol trwy’r fframwaith cynllunio morol yng Nghymru.
- Cydbwyso datblygu â gwarchod yr amgylchedd morol, a dulliau cynllunio i helpu i warchod a gwella bioamrywiaeth forol.
- Hyrwyddo integreiddio cryfach â pholisi cynllunio daearol.
- Tystiolaeth a gofynion asesu effaith.

I gefnogi’r adolygiad hwn, mae Arup wedi cynnal:

- Adolygiad cynhwysfawr o lenyddiaeth.
- Trafodaethau manwl ag aelodau’r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Cynllunio Morol.
- Gweithdy Rhanddeiliaid â chynrychiolwyr dethol o’r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Cynllunio Morol a rhanddeiliaid eraill allweddol sy’n ymwneud â’r systemau cynllunio morol a daearol, gan archwilio gwahanol safbwyntiau ar gynllunio morol yn seiliedig ar themâu sy’n dod i’r amlwg.



© Croeso Cymru

## 2. Dadansoddiad SWOT

Mae’r canfyddiadau allweddol o’r adolygiad o lenyddiaeth a’r ymarfer ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi cael eu trefnu yn ôl y Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau canlynol:

| Cryfderau | Gwendidau |
|---|---|
| Mae Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn rhoi’r un pwys ar bob sector, gan sicrhau nad oes unrhyw eithriadau. Mae’n cydbwyso gofynion sy’n cystadlu â hyblygrwydd. Mae cwmpas cenedlaethol y cynllun yn osgoi manylion rhanbarthol anghyson. Mae Porth Cynllunio Morol Cymru yn hawdd ei ddefnyddio ac yn cynnwys setiau data defnyddiol. | Prin yw’r integreiddio rhwng cynllunio morol a chynllunio daearol, yn enwedig trwy gysylltiadau hydrolegol afonol, sy’n gallu arwain at ddryswch i ymgeiswyr a dyblygu ymdrechion i’r rhai sy’n gwneud penderfyniadau. Yn ogystal, nid oes gwaelodlin amgylcheddol a ffisegol sylfaenol (e.e. data geoffisegol), sy’n gallu arwain at ddatblygiadau mewn lleoliadau llai manteisiol a allai greu cymhlethdod o ran dylunio a golygu bod angen mesurau lliniaru ychwanegol i reoli newidiadau. At hynny, nid oes corff cynghori nac ymgynghorai clir i asesu effaith economaidd-gymdeithasol ceisiadau. |
| **Cyfleoedd** | **Bygythiadau** |
| Gallai ceisiadau ar gyfer datblygiad sy’n cynnwys tir a dŵr gael eu symleiddio trwy broses gydlynol sy’n debyg i ddull Concordat Arfordirol Lloegr. Gellid gwella Porth Cynllunio Morol Cymru trwy integreiddio a thargedu polisïau Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru i’r porth morol a rhoi arweiniad ychwanegol ar y polisïau hyn i ymgeiswyr a’r rhai sy’n gwneud penderfyniadau. Argymhellir datblygu ‘cynlluniau ardal’ ar gyfer lleoliadau trawsffiniol a phorthladdoedd mawr, ochr yn ochr â sefydlu dull tebyg i Ardal Adnoddau Strategol ar gyfer gwelliannau amgylcheddol a bioamrywiaeth. Dylid meithrin mwy o gydweithio rhwng rhanddeiliaid er mwyn cryfhau perthnasoedd, ar yr un pryd â hyrwyddo Llythrennedd Cefnfor mewn cymunedau lleol er mwyn eu cynnwys mewn cynllunio morol. Gellid cryfhau rheolaeth effeithiol ar y rhwydwaith Ardal Forol Warchodedig, gan gefnogi rhai gweithgareddau a sectorau i gydleoli a / neu gydfodoli, lle bo’n briodol. Mae gosod targedau clir ac amcanion polisi CAMPUS ar gyfer pob sector yn allweddol i annog cynllunio morol gofodol. | Mae sensitifrwydd masnachol yn cyfyngu ar gynnydd tuag at waelodlin a rennir ar gyfer defnyddwyr gwely’r môr. Mae adnoddau ar gyfer y sector cyhoeddus a’r gyllideb yng Nghymru yn gyfyngedig. System lesio Ystad y Goron sy’n pennu cyfleoedd datblygu, yn hytrach na Chynllun Morol Cenedlaethol Cymru. Fe allai rowndiau lesio yn y dyfodol fod mewn ardaloedd data-gyfyngedig, gan atal dull rhagweithiol a arweinir gan dystiolaeth. Heb ragwelediad a chynllunio priodol, fe allai datblygiadau morol orymestyn capasiti amgylcheddol ardaloedd morol yng Nghymru, gan beryglu gorddefnydd gan rai sectorau. Mae’r newid yn yr hinsawdd ac anghenion newidiol sectorau yn cael effeithiau cronnol ar yr amgylchedd morol. |

## 3. Argymhellion

Gwneir naw argymhelliad, sy'n cyfleu a mynd i'r afael â chanlyniadau'r adolygiad, ac ymateb i'r dadansoddiad SWOT:

### 1 Argymhelliad: Hwyluso ymgysylltu rhagweithiol â rhanddeiliaid a sefydlu Fforwm Datblygwyr Morol

Mae rhanddeiliaid yn adrodd am ymgysylltu cadarnhaol a rhagweithiol gan Lywodraeth Cymru â rhanddeiliaid amgylchedd morol allweddol yng Nghymru, gan argymell ymgysylltu gweithredol parhaus trwy gyfarfodydd wyneb yn wyneb a rhyngweithiadau wedi'u teilwra i sectorau. Ystyrir bod cydweithio gwell â sefydliadau allweddol, gan gynnwys Ystad y Goron, yn hollbwysig i ddylanwadu ar gyfeiriadau datblygiad morol a lledaenu data morol, a bydd mynediad cynharach at setiau data strategol, fel data adareg forol, yn helpu i hwyluso gwell cynigion datblygu, penderfyniadau ac ymchwil gan y diwydiant. Anogir datblygu Fforwm Datblygwyr Morol (ynni'r gwynt, ynni'r llanw, ac ati) i gyfuno adnoddau ar gyfer ymchwil a rhannu gwybodaeth ar draws rhanddeiliaid, hefyd.

### 2 Argymhelliad: Grymuso cymunedau i gymryd rhan a hwyluso canlyniadau economaidd-gymdeithasol gwell

Mae rhanddeiliaid yn argymell targedu ymgysylltu â chymunedau lleol, yn enwedig ar gyfer cynigion Ardal Adnoddau Strategol sydd i ddod, gan integreiddio eu cyfraniadau i'r sylfaen dystiolaeth. Mae amlygu ymgynghorai neu gorff cynghori presennol, fel Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, i helpu i archwilio sut gall Cymru asesu effeithiau economaidd-gymdeithasol datblygiadau morol yn well, yn rhoi cyfleoedd ar gyfer canlyniadau gwell sy'n cyd-fynd â'r nodau llesiant yng Nghymru. Cynghorir cryfhau polisïau a chyfleoedd gwerth cymdeithasol, defnyddio modelau ar gyfer Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy, ac ystyried Dull Asesu Cyfalaf Naturiol hefyd i helpu i gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy, fel sy'n cael ei dreialu ar hyn o bryd yng Nghynllun Morol Dwyrain Lloegr. Yn ogystal, amlygodd rhanddeiliaid yr angen i ddeunyddiau hyfforddiant ac arweiniad wella ymgysylltu â'r cyhoedd (a chymunedau arfordirol), gan groesawu Fframwaith Llythrennedd Cefnfor Partneriaeth Arfordiroedd a Moroedd Cymru fel offeryn gwerthfawr.

### 3 Argymhelliad: Integreiddio'n well rhwng cynllunio morol a daearol

Mae integreiddio cynllunio morol a daearol yn allweddol i ystyried cydberthnasoedd ac effeithiau cronnol datblygiadau, ac argymhellodd rhanddeiliaid integreiddio gwell trwy fentrau fel Concordat Arfordirol, cynnwys cynllunwyr daearol mewn trafodaethau cynllunio morol, a chydweithio traws-sector. Mae gwella integreiddio trwy'r Cynlluniau Datblygu Strategol daearol sy'n dod i'r amlwg yn rhanbarthol yn cynnig cyfle cryf i integreiddio polisïau, tra gallai cynllunio rhanbarthol yng Nghymru helpu i gydlynu adnoddau, gwybodaeth a sgiliau yn well.

# 3. Argymhellion

## 4 Argymhelliad: Archwilio cyfleoedd i rannu data a thystiolaeth ymhellach

Cydnabu rhanddeiliaid werth data presennol Porth Cynllunio Morol Cymru ac awgrymasant welliannau, gan gynnwys integreiddio setiau data ychwanegol o ffynonellau amrywiol, cynnal ymarferion caffael data wedi'u targedu i lywio risgiau allweddol a datblygu llinellau sylfaen strategol, a mireinio setiau data presennol er mwyn gwella eu heglurder. Mae alinio platfformau data a chanolbwyntio ymdrechion casglu tystiolaeth ar ardaloedd sensitif, fel llecynnau cyfoethog o ran bioamrywiaeth, yn allweddol bwysig er mwyn darparu eglurder gofodol lle mae data'n gyfyngedig ar hyn o bryd.

## 5 Argymhelliad: Gwarchod a gwella'r amgylchedd morol yn gryfach

Awgrymodd rhanddeiliaid wella'r rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig trwy sefydlu parthau ac ymgysylltu i warchod ardaloedd sensitif, gan ystyried ardaloedd morol gwarchodedig anstatudol fel Ardaloedd Mamaliaid Môr Pwysig a hysbyswyd gan yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur. Pwysleisiwyd adolygu amddiffyn cynefinoedd alltraeth o ganlyniad i ddata cyfyngedig mewn dyfroedd dyfnach. Roedd yr awgrym yn cynnwys mandadu parthau gwahardd pysgota o amgylch datblygiadau ynni adnewyddadwy alltraeth i hybu bioamrywiaeth. Yn ogystal, mae ymestyn ynni gwynt alltraeth arnofiol yn y Môr Celtaidd yn gofyn am ystyried effeithiau ar y morlun, y tirlun ac effeithiau gweledol; yn enwedig 'storio gwlyb' lle mae tyrbinau'n cael eu hadeiladu a'u storio mewn porthladdoedd cyn eu trosglwyddo i'r môr. Argymhellir caffael data'n effeithiol a monitro addasol i osgoi gorymestyn capasiti cynnal poblogaethau sensitif ac i arwain penderfyniadau effeithiol ar sut i reoli capasiti sectorau.

## 6 Argymhelliad: Gwella'r gallu i wrthsefyll yr hinsawdd ac addasu iddi

Mae cefnogi ymchwil ynglŷn ag effeithiau'r newid yn yr hinsawdd a mapio cyfleoedd i wella'r gallu i wrthsefyll yr hinsawdd yn strategol yn hollbwysig. Mae hyn yn golygu ystyried newidiadau i ecosystemau yn y dyfodol ac addasu ffiniau Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn unol â hynny. Argymhellir gwerthuso polisïau hinsawdd presennol, alinio Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru â Strategaeth Newid Hinsawdd Cymru, ac ystyried data cyfredol am yr hinsawdd yn ystod adolygiadau a drefnwyd o Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru i ystyried a oes angen mireinio neu gryfhau polisïau ar yr hinsawdd.

# 3. Argymhellion

## 7 Argymhelliad: Cefnogi blaenoriaethu gofodol ar gyfer sectorau allweddol

Amlygodd rhanddeiliaid bwysigrwydd Ardaloedd Adnoddau Strategol ar gyfer sectorau â chyfyngiadau gofodol, gan argymell eu bod yn cael eu gweithredu i arwain datblygiadau morol yng Nghymru yn unol â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, gan ddarparu blaenoriaethu gofodol ar gyfer sectorau allweddol, ac roeddent yn cefnogi parhau â'r cyfeiriad presennol trwy ddarparu Ardaloedd Adnoddau Strategol. Mae'r sectorau allweddol a amlygwyd yn cynnwys ynni gwynt alltraeth arnofiol, ynni tonnau, amrediad llanw, moramaethu, agregau morol, ac adfer morol. Byddai hyn yn rhoi hyder i sectorau a buddsoddwyr ac yn cynorthwyo prosesau rheoleiddiol i ganolbwyntio ar ofynion tystiolaeth, technegau asesu a chynhyrchu capasiti ac arbenigedd priodol i gefnogi sectorau ffocws, gan hwyluso prosesau cydsynio, o bosibl.

## 8 Argymhelliad: Cynnal yr ymagwedd genedlaethol at y fframwaith a'i ategu â chanllawiau rhanbarthol penodol

Argymhellodd rhanddeiliaid gadw Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru fel un cynllun cenedlaethol sy'n rhychwantu ardaloedd mewndirol ac alltraeth, o ganlyniad i'w symlrwydd a'i eglurder. Nodwyd y cymhlethdod a'r costau uwch sy'n debygol o fod yn gysylltiedig â rheoli sawl cynllun rhanbarthol yng Nghymru. Er bod yn well ganddynt gynllun cenedlaethol, roedd yr ymatebwyr yn cefnogi canllawiau rhanbarthol, yn debyg i ganllawiau trawsffiniol Aber Afon Hafren ar gyfer Aber Afon Dyfrdwy, ac ardaloedd dwysedd uchel fel Porthladd Aberdaugleddau.

## 9 Argymhelliad: Cefnogi'r broses gwneud penderfyniadau gydag offer a chanllawiau technegol

Awgrymodd yr ymatebwyr ganllawiau cynllunio morol penodol i wella Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru, yn debyg i ddogfennau cynllunio daearol yng Nghymru fel Nodiadau Cyngor Technegol a Chanllawiau Cynllunio Atodol. Byddai'r dogfennau hyn yn helpu i weithredu Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru a chymhwyso ei bolisïau wrth wneud penderfyniadau am drwyddedau morol. Canmolwyd Porth Morol y Sefydliad Rheoli Morol am fapio polisïau'n ofodol, gan helpu defnyddwyr i amlygu polisïau sy'n berthnasol i'w buddiannau. Argymhellir dull tebyg ar gyfer Porth Cynllunio Morol Cymru i hwyluso prosesau ymgeisio am drwydded forol.

# 4. Datganiad i Gloi

Mae'r farn gyffredinol ymhlith rhanddeiliaid yn dangos bod Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn addas i'r diben ac yn effeithiol wrth gyflawni cynllunio morol yng Nghymru.

Mae ein hadolygiad wedi amlygu newydd-deb y system cynllunio morol yng Nghymru a sut mae gwersi a ddysgwyd gan systemau cynllunio morol eraill wedi cael eu hintegreiddio'n gadarnhaol i'w weithredu'n llwyddiannus.

Mae rhanddeiliaid yn cytuno bod Llywodraeth Cymru yn cydweithio ac ymgysylltu'n dda ar draws sectorau, cyrff anllywodraethol, a rheoleiddwyr, yn ogystal ag ardaloedd, gan helpu i gyflawni cynllunio morol yn gydlynol ledled y Deyrnas Unedig yn unol â dyheadau Datganiad Polisi Morol y Deyrnas Unedig. Yn y bôn, mae rhanddeiliaid yn priodoli llwyddiant Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru i'r integreiddio a'r cydweithio llwyddiannus hyn.

Er bod yr agwedd gadarnhaol at Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn nodedig yn ein hadolygiad, gwneir argymhellion ar gyfer cyfleoedd i ddatblygu, gwella, a mireinio Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru a'i elfennau ategol. Nid ydynt yn golygu newidiadau ysgubol nac yn amlygu diffygion sylfaenol. Mae ein hargymhellion yn cynrychioli dull gwell o feithrin perthnasoedd, gan hwyluso canlyniadau economaidd-gymdeithasol gwell, a chefnogi gwelliannau amgylcheddol a'r gallu i wrthsefyll yr hinsawdd.

I gloi, mae dyfodol cynllunio morol yng Nghymru yn addawol, gydag ymgysylltu a chydweithio cryf gan randdeiliaid, a mireinio polisïau, offer ac arweiniad yn barhaus i wella integreiddio, a gwneud penderfyniadau effeithiol wedi'u seilio ar dystiolaeth. Mae'r adolygiad hwn yn dangos llwybr blaengar ar gyfer y dyfodol, gan helpu i sicrhau bod Cymru yn arwain y ffordd o ran cynllunio morol cynaliadwy.



© Croeso Cymru